Ieuan Wyn Jones AC/AM
Dirprwy Brif Weinidog /Deputy First Minister

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref: LF/DFM/0007/11

Gareth Jones AC
Cadeirydd Pwyllgor
Y Pwyllgor Menter a Dysgu
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

22 Chwefror 2011

Annwyl Gareth

**Gorchymyn Drafft (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Priffyrdd a Thrafnidiaeth) 2011 Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu'n ffurfiol bod Gorchymyn Drafft (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Priffyrdd a Thrafnidiaeth) 2011 Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'i osod gerbron y Senedd yn San Steffan ar 3 Chwefror i'r Senedd honno gynnal y broses craffu cyn deddfu. Bydd y Gorchymyn drafft nawr yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Materion Cymreig a Phwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi.

Fel y gwyddoch, cyfrifoldeb Swyddfa Cymru, trwy Ysgrifennydd Gwladol Cymru, yw cyflwyno Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol drafft gerbron y Senedd yn San Steffan a hwyluso'r broses o graffu cyn deddfu mewn perthynas â nhw. Y Pwyllgor Materion Cymreig a Phwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi sy'n pennu amserlen y broses hon.

Ar ôl i'r Pwyllgorau orffen craffu ar y Gorchymyn, byddant yn cyflwyno eu hadroddiadau. Bydd yr adroddiadau hynny'n cael eu hystyried cyn i fersiwn ddrafft derfynol y Gorchymyn gael ei gosod gerbron y Cynulliad. Rhaid wedyn i'r Gorchymyn gael cymeradwyaeth ffurfiol gan y Cynulliad Cenedlaethol a'r ddau Dŷ yn y Senedd yn San Steffan.

Rwyf wedi gofyn i fy swyddogion anfon yr wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd at y Pwyllgor.

Ieuan

Ieuan Wyn Jones
Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Minister for the Economy and Transport

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8198
PS.DeputyFirstMinister@wales.gsi.gov.uk